

Cam 4

Mae gan rieni 15 diwrnod i ymateb i ddrafft ac enwi ysgol

- Bydd gennych 15 diwrnod i ystyried cynnwys y datganiad arfaethedig ac a oes angen trafod unrhyw newidiadau.
- Yn ystod y cyfnod hwnnw dylech gadarnhau i ba ysgol yr hoffech ddanfon eich plentyn. Efallai y trafodwyd hynny cyn i'r datganiad arfaethedig gael ei gynhyrchu, ond gallwch ystyried ysgolion eraill a thrafod a allant ddarparu ar gyfer anghenion eich plentyn.
- Unwaith yr ydych yn hapus â'r datganiad arfaethedig bydd yr AAL yn paratoi copi terfynol.

Mae rhieni a'r AAL yn trafod newidiadau posibl i'r datganiad

- Gall y broses hon gymryd hyd at 8 wythnos os oes nifer o bwyntiau i'w cytuno.
-
- Rhaid cyhoeddi'r datganiad terfynol o fewn 8 wythnos i ddanfon y datganiad arfaethedig.
 - Os nad ydych yn cytuno â'r datganiad terfynol mae gennych chi a'ch plentyn yr hawl i apelio (trowch i dudalen 6).
 - Unwaith y cyflwynwyd y datganiad terfynol dylai'r gefnogaeth ychwanegol fod ar gael cyn gynted ag y bo modd.
 - Dylid adolygu'r datganiad bob blwyddyn.